Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Canllaw i Ymgeiswyr – Sut i Wneud Cais

## Swydd Cynorthwyydd Ymchwil 2026

# Cyflwyniad

Diolch i chi am eich diddordeb mewn gweithio fel cynorthwyydd ymchwil i Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am sut mae gwneud cais am y swydd. I gael rhagor o wybodaeth am Gomisiwn y Gyfraith, timau cyfreithiol a swydd cynorthwyydd ymchwil, ewch i "Canllaw i Ymgeiswyr - Cyffredinol".

Darllenwch y ddogfen hon yn ofalus. Os na fyddwch yn dilyn y canllawiau, gallwch roi eich cais o dan anfantais neu achosi iddo fethu.

Mae ymgyrch recriwtio ar wahân ar gyfer pob un o'n pedwar tîm cyfreithiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais i'r tîm cywir. Gwnewch **gais am un tîm yn unig** gan nad yw'n arfer gennym ystyried mwy nag un cais.

**Mae Comisiwn y Gyfraith yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned ac rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal yn ein holl arferion, polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth. Mae hyn yn golygu bod pob ymgeisydd a gweithiwr yn cael ei drin yn deg, heb ystyried tarddiad ethnig, hil, rhywedd, statws priodasol, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran nac anabledd.**

Law Commission
1st Floor, Tower
52 Queen Anne's Gate
London
SW1H 9AG

# Cynnwys


**Pennod 1: Meini Prawf Dethol** 4

**Pennod 2: Y broses gwneud cais** 8

**Pennod 3: Gweithdrefnau dethol** 13

**Pennod 4: Amserlen Digwyddiadau Allweddol*** 16

**Pennod 5: Prif Delerau'r Penodiad** 17

**Pennod 6: I gael rhagor o wybodaeth** 19

# Pennod 1: Meini Prawf Dethol

Rydym yn dewis ymgeiswyr ar sail y meini prawf canlynol, sy'n cael eu harsylwi'n drylwyr. Nid **yw'n** bosibl i ni ystyried ceisiadau i addasu ein meini prawf sylfaenol.

Os ydych am i ni wneud addasiad rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nodwch hyn yn eich ffurflen gais.

Sylwch ei bod hefyd yn rhaid i chi ddiwallu **gofynion y gwasanaeth sifil ar genedligrwydd** ar gyfer y rôl hon.

## Gofynion Sylfaenol – Sgiliau Academaidd Hanfodol

Bydd gofyn i chi nodi eich sgiliau academaidd yn eich CV a nodi ar ba sail yr ydych yn bodloni'r gofynion academaidd sylfaenol. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf academaidd sylfaenol ac os nad ydych yn rhoi manylion yn eich CV ynghylch sut rydych yn bodloni'r meini prawf, bydd eich cais yn methu'n awtomatig. Dylai eich CV gynnwys eich hanes cyflogaeth presennol a blaenorol a marciau eich modiwlau unigol ar gyfer unrhyw raddau neu gymwysterau.

Erbyn eich dyddiad dechrau dylech fod wedi cwblhau cwrs/cyrsiau sy'n cynnwys dwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol cymeradwy amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb wrth astudio'n rhan-amser. Mae'n rhaid i'ch canlyniadau academaidd cyffredinol fod yn radd dosbarth cyntaf, **safon 2:1 dda, neu'n gyfwerth â hynny**, gydag o leiaf rhai elfennau o waith dosbarth cyntaf, fel y manylir ymhellach isod.

### Beth sy'n cyfrif fel "dwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol"?

Bydd gan y mwyafrif o ymgeiswyr radd yn y gyfraith neu radd gyfun, gydag o leiaf dwy ran o dair o'r radd honno ym maes y gyfraith.

Bydd rhai yn cwblhau gradd yn y gyfraith a bydd angen iddynt ddangos eu bod wedi ennill eu gradd erbyn mis Medi 2025.

Os nad oes gennych radd israddedig yn y gyfraith, efallai y byddwch yn bodloni'r gofynion sylfaenol os oes gennych o leiaf ddwy flynedd o astudiaethau ôl-raddedig yn y gyfraith. Gall hwn fod yn gwrs sengl (fel MPhil dwy flynedd) neu gyfuniad o gyrsiau (fel y Diploma Graddedig yn y Gyfraith a gradd meistr blwyddyn o hyd).

Os yw eich unig hyfforddiant cyfreithiol yn cynnwys naill ai GDL/CPE (cwrs trosi'r gyfraith) wedi'i gwblhau a blwyddyn o gymhwyster proffesiynol fel Cwrs Ymarfer y Gyfraith (LPC) neu'r BPTC (boed wedi'i gymryd ar wahân neu wedi'i gyfuno i radd dwy flynedd) neu basio'r Arholiadau Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE) 1 a 2 (pa un a ydych hefyd wedi dilyn y cyrsiau paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr ai peidio), dim ond os gallwch chi ddangos **sgiliau neu wybodaeth ychwanegol sylweddol y dylech chi wneud cais.**. Dylai'r rhain fod yn berthnasol i waith Comisiwn y Gyfraith a dylent fod wedi'u cyflawni naill ai drwy astudiaeth academaidd neu drwy waith. Mae gweithio mewn amgylchedd cyfreithiol yn annhebygol o fod yn ddigonol oni allwch ddangos ei fod yn darparu profiad sylweddol mewn meysydd sy'n greiddiol i rôl y Cynorthwyydd Ymchwil, yn enwedig ymchwil ar bynciau cyfreithiol anodd a

chymhleth. Os ydych yn credu eich bod yn perthyn i'r categori hwn, wrth lenwi'r cais ar-lein, rhowch fanylion i amlinellu sut rydych yn bodloni'r meini prawf academaidd gofynnol.

### Beth sy'n cyfrif fel gradd o "safon 2:1 dda"?

Os ydych wedi cwblhau gradd israddedig yn y gyfraith neu radd gyfun gydag o leiaf ddwy flynedd o astudio cyfreithiol o safon 2:1, byddwn yn edrych ar farciau'r holl bapurau rydych wedi'u cymryd sy'n cyfrif tuag at eich gradd derfynol:

**Rhaid i o leiaf <u>dri chwarter</u> o'r marciau hyn fod yn 60% neu'n uwch (safon 2:1), gydag o leiaf <u>un</u> o'r marciau yn 70% neu'n uwch (safon dosbarth cyntaf).**

Os ydych yn ymgymryd â gradd yn y gyfraith neu radd gyfun ar hyn o bryd, a bod gennych farciau am o leiaf pedwar papur, byddwn yn edrych ar y marciau hynny ac yn defnyddio'r un prawf.

Os nad oes gennych farciau o bedwar papur o leiaf, byddwn yn edrych ar eich canlyniadau academaidd blaenorol, sef Safon Uwch fel arfer. Byddwn yn disgwyl i chi gael o leiaf un A* a dwy A. Os ydych chi wedi sefyll eich arholiadau Safon Uwch cyn cyflwyno'r radd A*, mae angen i chi gael tair A.

### Ffyrdd eraill o ddangos gallu academaidd sy'n cyfateb i "radd dosbarth cyntaf neu safon 2:1 dda "?

Os nad ydych yn bodloni ein gofynion sylfaenol ar sail eich gradd israddedig, gallwch brofi'r safon academaidd drwy ddangos eich bod wedi cwblhau un neu fwy o'r cymwysterau canlynol:

Diploma Graddedig yn y Gyfraith (GDL) (neu Arholiad Proffesiynol Cyffredin (CPE) ar lefel rhagoriaeth, neu ar lefel canmoliaeth gydag o leiaf un rhagoriaeth. (Noder, fodd bynnag, ni fydd Diploma Graddedig yn y Gyfraith neu Arholiad Proffesiynol Cyffredin) – ar ei ben ei hun – yn bodloni'r gofyniad o ddwy flynedd o astudio cyfreithiol uchod).

Wedi cwblhau gradd meistr yn y gyfraith (LLM, BCL, MA, M Phil neu MSc) ar lefel 2:1 (teilyngdod) neu uwch. (Noder, fodd bynnag, na fydd gradd Meistr blwyddyn – ar ei phen ei hun – yn bodloni'r gofyniad am ddwy flynedd o astudio cyfreithiol uchod).

Wedi cwblhau PhD neu DPhil yn y gyfraith.

Mae rhai cymwysterau'n cyfuno'r GDL a chymwysterau proffesiynol mewn gradd dwy flynedd. Ar gyfer hyn, rhaid i chi fod wedi ennill gradd dosbarth gyntaf neu ragoriaeth. Os mai dyma gyfanswm eich astudiaeth gyfreithiol, bydd dal yn ofynnol i chi ddangos sgiliau neu wybodaeth ychwanegol berthnasol fel y trafodwyd uchod.

| Dwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol | Safon 2.1 dda o leiaf |
|---|---|
| Gradd israddedig yn y gyfraith gan gynnwys gradd gyfun gydag o leiaf ddwy ran o dair o'r radd yn y gyfraith. | Ar ôl cwblhau gradd: Rhaid i dri chwarter y marciau hyn fod yn uwch na 60%, gydag o leiaf un o'r marciau hyn yn 70% neu'n uwch.<br>Os ydych chi'n dal i gwblhau gradd: cael marciau o bedwar papur o leiaf sy'n cyfateb i'r safon uchod.<br>Os ydych chi'n dal i gwblhau gradd ac nad oes gennych chi farciau o bedwar papur o leiaf ar lefel gradd, o leiaf un A* a dwy A (neu dair A os oeddech chi wedi'u gwneud cyn cyflwyno A*). |
| GDL/CPE + LPC/BPC/cwrs paratoi at SQE + sgiliau a gwybodaeth sylweddol e.e. astudiaethau academaidd perthnasol a/neu weithio ar bynciau cyfreithiol anodd a chymhleth | GDL (neu CPE) ar lefel rhagoriaeth, neu ar lefel canmoliaeth gydag o leiaf un marc rhagoriaeth |
| MPhil dwy flynedd yn y gyfraith, NEU GDL/CPE + gradd meistr blwyddyn (LLM/ BCL/ MA/MPhil/MSc) Mae cwrs meistr yn golygu bod eich darparwr yn dyfarnu LLM/BCL/MA/MPhil/MSc i chi. | Gradd Meistr yn y Gyfraith wedi'i chwblhau ar lefel 2:1/teilyngdod neu uwch (mae hyn yn cyfrif ar gyfer safon academaidd, nid ar gyfer dwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol o wneud hyn yn unig) |
| | Wedi cwblhau PhD neu DPhil yn y Gyfraith |
| | Os yw eich cymhwyster yn gwrs sy'n cyfuno'r GDL a chymhwyster proffesiynol, rhaid i chi fod wedi cael gradd dosbarth cyntaf neu ragoriaeth yn y cwrs hwnnw. |

Os nad oes gennych ddwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol sylweddol, neu os yw eich unig hyfforddiant cyfreithiol yn cynnwys naill ai GDL/CPE wedi'i gwblhau (cwrs trosi y gyfraith) a chymhwyster proffesiynol blwyddyn (fel cymhwyster LPC neu BPC, wedi’u sefyll ar wahân neu gyda'r GDL/CPE) neu basio'r Arholiadau Cymhwyso Cyfreithwyr 1 a 2 (pa un a ydych hefyd wedi sefyll y cyrsiau paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr neu beidio), ond eich bod yn credu y gallwch ddangos **sgiliau neu wybodaeth ychwanegol sylweddol berthnasol** yn unol â’r “Meini prawf dethol” a nodir uchod, gwnewch yn siŵr bod hyn - a’r profiad perthnasol - yn glir yn eich CV.

**Bydd methu dangos yn glir yn eich CV sut rydych chi’n bodloni’r meini prawf uchod yn arwain at dynnu eich cais o’r broses.**

## Meini prawf hanfodol eraill

Yn ogystal â bodloni'r gofynion sylfaenol o ran sgiliau academaidd hanfodol, gofynnir i chi ddangos y canlynol yn eich cais ysgrifenedig:

**Ymddygiad:**

- Cyfathrebu a Dylanwadu (gyda sgiliau cyfathrebu hefyd yn cael eu hasesu drwy gydol eich cais)

**Profiad:**

- Ymchwil Gyfreithiol
- Sgiliau Cyfreithiol
- CV

**Os derbynnir nifer fawr o geisiadau, mae hi'n bosibl y bydd didoli ar sail profiad arweiniol Ymchwil Gyfreithiol yn digwydd. Os bydd nifer fawr o geisiadau'n parhau ar ôl y cam didoli cychwynnol, bydd yr holl feini prawf sy'n weddill yn cael eu didoli ar sail y ceisiadau hynny a basiodd y cam didoli cychwynnol:**

Mae rhagor o fanylion isod am sut i gwblhau'r cwestiynau ar-lein sydd wedi'u cynllunio i brofi eich gallu yn y meysydd hyn.

Bydd yr holl sgiliau ac ymddygiadau a brofir wrth wneud cais hefyd yn cael eu profi yn y cyfweliad, yn ogystal â'r ddau sgil technegol ychwanegol:

**Technegol:**

- Cymhelliant Personol
- Gallu gweithio gyda Gwybodaeth Gymhleth

Mae rhagor o fanylion isod am sut i gwblhau'r cwestiynau ar-lein sydd wedi'u cynllunio i brofi eich gallu yn y meysydd hyn. Yn nes ymlaen yn y canllaw hwn, byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn asesu yn y cam cyfweld os byddwch yn llwyddiannus yn y cam ymgeisio.

Mae'r broses ymgeisio'n dechrau gyda ffurflen ar-lein.

Bydd y rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfweliad yn cael eu gwahodd am gyfweliad wyneb yn wyneb a byddant yn cael prawf ysgrifenedig i'w gwblhau gartref a'i gyflwyno drwy e-bost cyn y cyfweliad. Bydd costau teithio safonol (rheilffordd, trên tanddaearol neu fws) o fewn y DU yn cael eu had-dalu am ddod i'r cyfweliad wyneb yn wyneb. Sylwer y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr **ddod â** dogfennau gyda nhw i brofi pwy ydyn nhw, eu cyfeiriad, eu hawl i weithio a'u cymwysterau.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi manylion y meini prawf a'r sgiliau a fydd yn cael eu profi ar bob cam.

# Pennod 2: Y broses gwneud cais

I wneud cais **dilynwch y cyfarwyddiadau manwl isod**. Mae'r rhain yn egluro sut i wneud cais gan ddefnyddio system recriwtio ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae ymgyrch recriwtio ar wahân ar gyfer pob un o'n pedwar tîm cyfreithiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais i'r tîm cywir. Gwnewch gais **i un tîm yn unig**.

Cymerwch amser hefyd i ddarllen ein hawgrymiadau defnyddiol sy'n ymwneud â'r broses recriwtio.

**Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau isod. Os na fyddwch yn gwneud hynny, mae eich cais yn debygol o fethu.**

## Dyddiad cau

Edrychwch ar yr hysbyseb swydd i weld y dyddiad a'r amser cau. Os ydych chi'n cael anawsterau wrth wneud eich cais, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y Canllaw hwn. Fe'ch cynghorir yn gryf i gwblhau eich cais ymhell cyn y dyddiad cau oherwydd efallai na fydd yn bosibl delio ag ymholiadau munud olaf neu ymholiadau a wneir y tu allan i oriau swyddfa. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau hwyr.

## Trosolwg

Gwneir ceisiadau gan ddefnyddio system Porth Recriwtio y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ystod y broses ymgeisio, gofynnir i chi ateb cwestiynau am ymddygiad a phrofiad sy'n gofyn i chi ddangos y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl hon. Gofynnir i chi ddarparu CV sy'n ddienw ac sydd dim yn nodi eich sefydliadau addysgol, gan roi eich cymwysterau ac unrhyw brofiad gwaith perthnasol. Gofynnir i chi hefyd ddangos sut rydych yn bodloni'r sgiliau academaidd hanfodol a nodir ar ddechrau'r Canllaw hwn.

**Os byddwch chi angen unrhyw addasiad rhesymol ar unrhyw gam yn eich cais, cysylltwch â: recruitment@lawcommission.gov.uk** cyn gynted â phosibl. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cyfle teg a chyfartal i bawb o ran bod yn bresennol yn y cyfweliad. Mae'r adeilad yn gwbl hygyrch.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Byddwn yn ystyried ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ac sydd wedi datgan anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer cyfweliad, ond nid yw hyn yn gwarantu cyfweliad i bob ymgeisydd cymwys: **(Lefel 1: Wedi Ymrwymo i Hyderus o ran Anabledd)**. Cofiwch, mae'n rhaid i chi dal fodloni ein **gofynion sylfaenol** o ran meini prawf i gael cyfweliad.

Bydd costau teithio safonol (rheilffordd, trên tanddaearol neu fws) o fewn y DU yn cael eu had-dalu.

Sylwer y bydd yn ofynnol i ymgeiswyr **ddod â** dogfennau gyda nhw i brofi pwy ydyn nhw, eu cyfeiriad, eu hawl i weithio a'u cymwysterau.

## Cam 1 – Darllenwch y Canllaw hwn

Darllenwch y canllaw hwn yn ofalus. Bydd yn eich helpu i ddeall y rôl rydych yn ymgeisio amdani a'r sgiliau rydym yn disgwyl i ymgeiswyr eu dangos yn eu ceisiadau.

## Cam 2 – Defnyddio'r system ymgeisio ar-lein

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar-lein, gan gwblhau'r holl adrannau y gofynnir i chi eu llenwi. Mae'r canllawiau isod yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn rydym yn chwilio amdano a'r hyn y mae angen i chi ei gynnwys yn eich cais.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau sy'n ymwneud ag ymddygiad, gallu a phrofiad gan ddefnyddio dim mwy na 250 gair.

Gofynnir cwestiynau penodol i chi yn eich ffurflen gais. Disgwylir i chi ddisgrifio un neu fwy o weithgareddau rydych chi wedi'u gwneud lle rydych chi wedi dangos y sgiliau perthnasol. Os yw'n bosibl, cyfeiriwch at enghreifftiau yng nghyd-destun gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith a byddwch mor benodol ag y gallwch.

### Ymddygiad 1: Cyfathrebu a Dylanwadu

Rhowch dystiolaeth sy'n dangos eich bod yn gallu cyfleu gwybodaeth gymhleth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn glir, yn effeithiol a gan argyhoeddi.

Dylech roi enghreifftiau o sefyllfaoedd o'ch bywyd proffesiynol, academaidd neu bersonol o sut rydych wedi defnyddio sgiliau cyfathrebu a dylanwadu. Mae arnom eisiau i chi bwysleisio'r hyn a wnaethoch a sut gwnaethoch chi ddefnyddio'r sgiliau hyn, yn hytrach na chynnwys yr hyn roeddech chi'n ei gyfathrebu. Mae arnom eisiau deall sut roedd eich sgiliau cyfathrebu'n effeithiol. Byddwn hefyd yn edrych ar eich ffurflen gais fel enghraifft o sut gallwch chi gyfathrebu'n gywir ac yn effeithiol, gan ddefnyddio cystrawen a strwythur da.

### Ymddygiad 2: Cydweithio

Rhowch dystiolaeth sy'n dangos eich gallu i gydweithio ag eraill mewn amgylchedd tîm a gweithio'n llwyddiannus ar eich liwt eich hun.

Rhowch fanylion y sefyllfaoedd lle rydych chi wedi gweithio gydag eraill, gan egluro sut rydych chi wedi cydweithio'n effeithiol, a lle rydych chi wedi gweithio'n llwyddiannus ar eich liwt eich hun. Esboniwch y cyd-destun y gwnaethoch ennill y profiad hwnnw ynddo (er enghraifft, prifysgol, cynllun gwyliau, swydd yn ystod y gwyliau, cyflogaeth llawnamser).

### Profiad 1: Ymchwil Gyfreithiol (profiad arweiniol)

Rhowch dystiolaeth sy'n dangos eich gallu i gynnal ymchwil fanwl a dibynadwy, yn enwedig i faterion cyfreithiol cymhleth. Mae arnom eisiau gwybod yn benodol sut roeddech chi wedi cynnal yr ymchwil a'r ffynonellau roeddech chi wedi'u defnyddio, yn hytrach na'ch bod yn dweud wrthym am fanylion yr hyn y daethoch o hyd iddo.

Dywedwch wrthym am eich sgiliau ymchwil cyfreithiol gan esbonio beth oedd y dasg, (eich methodoleg ymchwil) a sut gwnaeth y dull hwnnw sicrhau bod eich ymchwil yn llwyddiannus. Rhowch y cyd-destun y cynhaliwyd yr ymchwil ynddo (er enghraifft, traethawd hir israddedig).

Soniwch am ymchwil nad yw'n gyfreithiol os ydych yn credu ei fod yn berthnasol. Dywedwch wrthym am unrhyw hyfforddiant a gawsoch wrth gynnal ymchwil.

### Profiad 2: Sgiliau Cyfreithiol

Rhowch dystiolaeth sy'n dangos eich gwybodaeth am rai, neu bob un, o'r meysydd cyfreithiol sy'n berthnasol i waith y tîm o'ch dewis.

Rydym eisiau clywed am eich gwybodaeth a'ch profiad o feysydd cyfreithiol sy'n berthnasol i'r tîm rydych chi'n gwneud cais iddo. Yn bennaf, mae hyn yn golygu'r meysydd cyffredinol o gyfraith sy'n berthnasol i'r tîm (er enghraifft, cyfraith droseddol). Os oes gennych wybodaeth benodol am brosiectau tîm cyfredol neilltuol neu unrhyw waith yn y dyfodol a nodir yn y Canllaw Cyffredinol i Ymgeiswyr, rhowch fanylion. Dylech roi manylion am y cyd-destun y cawsoch y wybodaeth honno ynddo (er enghraifft, y math o gwrs a ddilynoch, cyflogaeth bresennol neu flaenorol) ac esbonio pa mor ddiweddar yw eich profiad. Os nad oes gennych wybodaeth am waith y tîm, rhowch dystiolaeth o'ch gallu a'ch parodrwydd i gaffael y wybodaeth honno'n gyflym, er enghraifft, profiad mewn meysydd tebyg neu dystiolaeth o ymgyfarwyddo'n sydyn â materion tebyg.

### Profiad 3: CV

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i chi gyflwyno CV – dilynwch y strwythur a amlinellir isod. Mae ceisiadau yn ddienw, felly **peidiwch â** chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol fel eich enw, eich dyddiad geni neu eich manylion cyswllt. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol a allai ddatgelu pwy ydych chi, er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn parhau i fod yn deg, yn agored ac yn cael ei monitro'n briodol.

Bydd y CV yn cael ei asesu mewn dwy ran: Manylion Cymwysterau a Hanes Cyflogaeth/ Profiad Gwaith.

#### CV – manylion addysg/cymwysterau

Ni ddylai'r rhan hon o'r CV gynnwys unrhyw fanylion am eich sefydliadau addysgol, felly **peidiwch â** chynnwys enwau prifysgolion, colegau neu ysgolion. Os aethoch i sefydliad tramor, nodwch ym mha wlad y buoch chi'n astudio er mwyn sicrhau y gallwn ystyried amrywiadau mewn arddulliau marcio.

#### Cymwysterau ôl-raddedig/proffesiynol (os yn berthnasol)

Defnyddiwch yr un fformat â'ch gradd gyntaf (fel y nodir isod), gan roi marciau ar gyfer pob pwnc neu fodiwl.

Os oes gennych fwy nag un cymhwyster dilynol, rhestrwch nhw mewn trefn gronolegol o chwith, gyda'r mwyaf diweddar yn gyntaf.

#### Eich gradd

Os oes gennych fwy nag un radd, rhestrwch nhw mewn trefn gronolegol o chwith, gyda'r mwyaf diweddar yn gyntaf.

Defnyddiwch y fformat: enw'r radd / dyddiad dechrau – dyddiad gorffen / gradd dosbarth neu'r marc a ddyfarnwyd. Yna rhowch fanylion pob pwnc neu fodiwl a arholwyd neu a aseswyd yn eich gradd gyntaf, a'r radd neu farc a gafwyd. Defnyddiwch y fformat: enw'r

pwnc / gradd neu farc a gafwyd wedi'i fynegi fel canran / blwyddyn yr arholiad neu'r asesiad. Er enghraifft:

LLB / 2018 - 2021 / Dosbarth 1af

Cyfraith Trosedd / 70% / 2020

Cyfraith Gyhoeddus / 72% / 2020

Cyfraith Tir / 69% / 2020

Cyfraith Eiddo Deallusol / 64% / 2020

Ecwiti ac Ymddiriedolaethau / 62% / 2021

Cyfraith Contract / 68% / 2021

Os NAD oedd marc yn cyfrif at ganlyniad cyffredinol eich cymhwyster, ychwanegwch seren – er enghraifft: Systemau Cyfreithiol / 70% / 2020*.

Rhestrwch y pwnc/modiwlau mewn trefn gronolegol ac, ar y diwedd, rhestrwch unrhyw bynciau neu fodiwlau nad ydynt wedi'u harholi na'u hasesu yn yr un fformat ar hyn o bryd, a rhowch linell doriad yn lle'r marc a gafwyd. Er enghraifft: Cyfraith Eiddo / –.

### Eich canlyniadau Safon Uwch/ Safon UG neu gyfwerth

Defnyddiwch y fformat: blwyddyn yr arholiad / math o arholiad / pwnc / gradd neu farc a ddyfarnwyd. Er enghraifft: 2011 / Safon Uwch / Mathemateg / Gradd A.

Rhowch fanylion unrhyw ysgoloriaethau, dyfarniadau neu ragoriaethau eraill a ddyfarnwyd yn ystod eich gyrfa academaidd.

### CV – hanes cyflogaeth a phrofiad gwaith

Rhowch fanylion unrhyw gyflogaeth, gan gynnwys interniaethau a swyddi gwirfoddol neu achlysurol, y gwnaethoch ers eich bod yn 18 oed; ac unrhyw gyflogaeth tymor byrrach a allai fod yn berthnasol i'ch cais yn eich barn chi. Rhowch y manylion canlynol ar gyfer pob swydd:

Enw'r cyflogwr a'r math o fusnes;

Teitl y Swydd a chrynodeb o'r dyletswyddau;

Dyddiad dechrau a dyddiad gorffen;

Os ydych chi wedi ymgymryd â chontract tymor prawf neu hyfforddiant, rhowch y manylion yma, gan nodi:

Bargyfreithwyr (tymor prawf): enw a chyfeiriad y siambrau; dyddiad dechrau/gorffen; y math o waith a wnaed; enw'r Ysbyty; dyddiad yr alwad i'r Bar.

Cyfreithwyr (contract hyfforddi): enw a chyfeiriad y cwmni; dyddiad dechrau/gorffen; y math o waith a wnaed; dyddiad derbyn fel cyfreithiwr.

## Sgiliau academaidd hanfodol – gofynion sylfaenol

**Yn yr adran hon, dylech nodi ar ba sail rydych chi'n credu eich bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd academaidd sylfaenol.**

Mae angen i chi ddangos y byddwch erbyn mis Medi 2025 wedi cwblhau'r ddwy flynedd ofynnol o astudiaethau cyfreithiol ("Gofyniad 1") a bod eich canlyniadau academaidd ar gyfer o leiaf un cwrs cyfraith yn cyrraedd, neu'n gyfwerth â safon dosbarth cyntaf neu safon 2:1 dda ("Gofyniad 2"), gydag o leiaf rhai elfennau o waith dosbarth cyntaf.

### Er enghraifft:

Gofyniad 1: Byddaf wedi cwblhau cwrs gradd amser llawn sy'n cynnwys dwy flynedd neu fwy o astudiaethau cyfreithiol parhaol llawnamser erbyn mis Medi 2025: cynhaliwyd fy ngradd israddedig rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2024.

Gofyniad 2: Mae canlyniadau fy ngradd israddedig yn y gyfraith yn bodloni'r safon ofynnol a nodir yn y Canllaw i Ymgeiswyr. Y dystiolaeth ar gyfer hyn yw fy mod wedi ennill gradd 2:1 gyda marciau dosbarth cyntaf mewn dau bwnc.

Os nad oes gennych ddwy flynedd o astudiaethau cyfreithiol sylweddol, neu os yw eich unig hyfforddiant cyfreithiol yn cynnwys naill ai GDL/CPE wedi'i gwblhau (cwrs trosi y gyfraith) a chymhwyster proffesiynol blwyddyn (fel cymhwyster LPC neu BPC, wedi'u sefyll ar wahân neu gyda'r GDL/CPE) neu basio'r Arholiadau Cymhwyso Cyfreithwyr 1 a 2 (pa un a ydych hefyd wedi sefyll y cyrsiau paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr neu beidio), ond eich bod yn credu y gallwch ddangos **sgiliau neu wybodaeth ychwanegol sylweddol berthnasol** yn unol â'r "Meini prawf dethol" a nodir uchod, gwnewch yn siŵr bod hyn - a'r profiad perthnasol - yn glir yn eich CV.

**Rhaid i chi esbonio sut rydych chi'n bodloni'r gofynion sylfaenol hyn ar gyfer sgiliau academaidd hanfodol a rhoi tystiolaeth (er enghraifft, drwy roi marciau modiwlau neu gyrsiau fel yr esbonnir uchod)**. Os na fyddwch yn dweud wrthym sut rydych yn bodloni'r gofynion, neu'n methu â darparu tystiolaeth, yna mae eich cais yn debygol o fethu.

## Sgiliau Cymraeg

Os oes gennych chi unrhyw sgiliau Cymraeg, nodwch nhw'n glir ar eich CV.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynrychioli Cymru a Lloegr, felly rydym yn awyddus i annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg i'n helpu i gynnal a datblygu ein perthynas â phobl Cymru. Rhowch wybod i ni os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a nodwch lefel eich gallu yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Bydd unrhyw Gynorthwyydd Ymchwil sy'n siarad Cymraeg yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu i gefnogi polisi iaith Gymraeg y Comisiwn. Bydd yn gweithredu fel llysgennad ar faterion sy'n effeithio ar Gymru a'r iaith Gymraeg, er enghraifft mynychu digwyddiadau yng Nghymru, ac yn darparu goruchwyliaeth i helpu i sicrhau bod cyhoeddiadau a chyfathrebiadau Cymraeg y Comisiwn yn gywir ac yn effeithiol. Mae faint o waith yn amrywio a chytunir ar hynny gyda Phennaeth y Tîm pan fydd y Cynorthwyydd Ymchwil yn dechrau. Mae hyn a gwaith corfforaethol arall ar y gyfraith yng Nghymru yn gallu cymryd hyd at 20% o amser unigolyn.

# Pennod 3: Gweithdrefnau dethol

## Y broses ddidoli

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn fanwl gan banel dethol fesul tîm. Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf academaidd gofynnol yn cael eu gwrthod.

**Os byddwn yn derbyn nifer fawr o geisiadau, mae hi'n bosibl y bydd eich atebion yn mynd drwy broses ddidoli gychwynnol, a byddwn yn ystyried y canlynol:**

> **(1) Ymchwil Gyfreithiol.** Os bydd eich cais yn pasio'r cam didoli cychwynnol hwn, a bod nifer fawr o geisiadau'n parhau ar ôl y cam didoli cychwynnol, bydd yr holl feini prawf sy'n weddill yn cael eu didoli ar sail y ceisiadau hynny a basiodd y cam didoli cychwynnol.

## Cyfweliadau

Bydd panel dethol pob tîm yn gwahodd yr ymgeiswyr hynny y mae'n ymddangos bod eu ceisiadau'n bodloni'r sgiliau hanfodol orau i gael cyfweliad, gan ystyried nifer y swyddi gwag sydd ar gael yn y tîm. Bydd y cyfweliad yn cynnwys cwestiynau am ymddygiadau (Cyfathrebu a Dylanwadu a Chydweithio), profiadau (Ymchwil Gyfreithiol a Sgiliau Cyfreithiol), y cymwyseddau technegol (Ffit o ran Cymhelliant) a gallu (Gweithio gyda Gwybodaeth Gymhleth). Fel rhan o hyn, gofynnir cwestiynau i chi am un neu fwy o feysydd perthnasol o'r gyfraith. Cewch wybod am y maes/meysydd cyfreithiol yn eich gwahoddiad i gyfweliad ac anfonir unrhyw ddeunydd angenrheidiol atoch ymlaen llaw. Rydym wedi paratoi **canllaw fideo byr** i'ch helpu i baratoi at y cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad. Eleni, nid ydym yn defnyddio cryfderau yn y broses ymgeisio, ond fel arall gall y canllaw fideo hwn eich helpu i baratoi ar gyfer y cwestiynau ymddygiad a'r broses gyfweld.

Mae rhagor o wybodaeth isod am y cymwyseddau a fydd yn cael eu hasesu yn y cyfweliad nad ydynt yn cael sylw uchod yn y cam ymgeisio.

## Technegol: Cymhelliant Personol

Yn y cyfweliad bydd gofyn i chi egluro pam eich bod eisiau gweithio i Gomisiwn y Gyfraith a'r rhesymau dros ddewis y tîm o'ch dewis. Er enghraifft, pam ydych chi eisiau gweithio mewn amgylchedd cyfreithiol technegol? Pam ydych chi eisiau gweithio yn y sector cyhoeddus a gyda'r Llywodraeth?

Byddwch yn glir ynghylch pam rydych chi'n ffafrio'r tîm rydych chi wedi'i ddewis. Disgrifiwch eich cynlluniau gyrfa tymor hir a'r ffordd y credwch y byddai gweithio fel Cynorthwyydd Ymchwil yn cyfrannu atynt.

## Gallu: Gallu gweithio gyda gwybodaeth gymhleth

Rhowch dystiolaeth sy'n dangos eich gallu i weithio gyda gwybodaeth gymhleth yn eich barn chi.

Bydd ein hasesiad o'r gallu hwn yn seiliedig ar eich ymatebion i'r cwestiynau am ddadansoddiad cyfreithiol. Yn y cyfweliad, gofynnir cwestiwn i chi i'ch holi am eich gallu i ddeall, i ddadansoddi ac i gyflwyno gwybodaeth. Efallai y gofynnir i chi hefyd roi enghraifft o'ch gallu, felly dylech feddwl am sefyllfaoedd lle rydych wedi llwyddo i ddadansoddi a dehongli pwnc a oedd yn arbennig o gymhleth neu heriol, a'ch dull o wneud hynny.

## Y Prawf

Bydd ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad yn cael prawf ysgrifenedig dros e-bost i'w gwblhau a'i ddychwelyd cyn i'r cyfweliadau ddechrau. Byddwch yn cael e-bost gan aelod o'r tîm gyda chyfarwyddiadau pellach, gan gynnwys rhestr o ddyddiadau posibl i gwblhau'r prawf. Ar y diwrnod rydych chi'n dewis eich prawf, byddwch chi'n cael y prawf am 10am a bydd disgwyl i chi ei ddychwelyd erbyn 4pm. Os oes angen addasiadau rhesymol arnoch i gwblhau'r prawf ysgrifenedig, rhaid i chi roi gwybod i ni ymlaen llaw. Bydd y prawf yn asesu eich Sgiliau Cyfathrebu a Dylanwadu, eich Sgiliau Cyfreithiol, a'ch Gallu i Weithio gyda Gwybodaeth Gymhleth.

## Y Broses Benodi

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad y broses gyfweld drwy system Porth Recriwtio y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n bosibl i'r ymgeiswyr hefyd gael galwad ffôn gynharach gan aelod o'r tîm os ydynt wedi llwyddo yn y cyfweliad. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr sy'n cael gwybod eu bod wedi llwyddo i roi syniad pendant a fyddant yn derbyn ein cynnig o gyflogaeth ai peidio. Mae'n hanfodol nad yw ymgeiswyr llwyddiannus yn awgrymu eu bod yn derbyn y swydd ac yn derbyn opsiynau eraill yn ddiweddarach; gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Comisiwn benodi rhywun addas i gymryd eu lle ac mae'n annheg ar ymgeiswyr eraill. Os yw derbyn y swydd yn dibynnu ar ganlyniad ceisiadau eraill, rhowch wybod i ni a gallwn drafod opsiynau. Mae llawer o siambrau, cwmnïau cyfreithiol a phrifysgolion yn cydymdeimlo â cheisiadau i ohirio hyfforddiant proffesiynol neu astudiaethau ôl-raddedig.

Bydd camau gwirio cyn cyflogi angenrheidiol yn cael eu cynnal ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus. Os yw canlyniadau'r camau gwirio hyn yn foddhaol, bydd cynnig ffurfiol o benodiad yn cael ei wneud gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel rheol tua dechrau mis Awst, yn dibynnu ar gwblhau'r broses fetio.

Bydd rhagor o fanylion am gamau gwirio cyn cyflogi yn cael eu darparu mewn llythyr yn cadarnhau bod eich cyfweliad yn llwyddiannus. Sylwch, fodd bynnag, os gofynnir i chi lenwi ffurflenni ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, dylech wneud hynny'n gywir ac yn brydlon, gan ddarparu'r holl ddeunyddiau ategol angenrheidiol. Gall methu â gwneud hyn arwain at oedi o ran eich dyddiad dechrau, problemau gyda thâl neu dynnu'ch cais yn ôl. Os ydych chi'n profi neu'n rhagweld unrhyw broblemau yn hyn o beth, cysylltwch â ni ymlaen llaw er mwyn i ni allu gwneud trefniadau priodol.

Ar gyfer eich camau gwirio cyn cyflogi: os ydych chi wedi byw y tu allan i'r DU am fwy na chwe mis, bydd angen i chi ddarparu tystysgrif ymddygiad da neu wiriad heddlu tramor wedi'i gyfieithu i'r Saesneg o'r gwledydd rydych chi wedi byw ynddynt neu wedi ymweld â nhw – i gael arweiniad a manylion cyswllt ynghylch sut mae gwneud hyn ewch i **gwiriadau cofnodion troseddol i ymgeiswyr tramor**. Chi fydd yn talu am gost y cais hwn.

Rhaid i chi hefyd ddiwallu **gofynion y gwasanaeth sifil ar genedligrwydd**.

### Ymgeiswyr wrth gefn

Os bydd nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus yn y cyfweliad yn fwy na nifer y swyddi sydd ar gael, caiff rhai eu trin fel ymgeiswyr wrth gefn a chysylltir â nhw os daw swyddi ar gael.

# Pennod 4: Amserlen Digwyddiadau Allweddol*

| Dyddiadau | Digwyddiadau |
|---|---|
| **Diwedd Rhagfyr 2025** | Canllawiau ar gyfer gwneud cais am swydd Cynorthwyydd Ymchwil 2026 yn fyw ar y wefan er mwyn rhoi cyfle i baratoi |
| **Dechrau Ionawr 2026** | Dyddiad agor |
| **Diwedd Ionawr 2026** | Dyddiad cau |
| **Chwefror 2026** | Didoli ceisiadau |
| **Dechrau i ganol Mawrth 2026** | Anfon gwahoddiadau i gyfweliad |
| **Canol mis Mawrth 2026** | Prawf i'w sefyll cyn y cyfweliad |
| **Diwedd Ebrill a dechrau Mai 2026** | Dyddiadau disgwyliedig ar gyfer cyfweliadau |
| **Mai 2026** | Anfon hysbysiad o gynnig amodol o benodiad |
| **31ain Awst 2026** | Dyddiad cychwyn disgwyliedig |
| **31ain Awst – 4ydd Medi 2026** | Bydd sesiynau cynefino'n cael eu cynnal ar gyfer pob Cynorthwyydd Ymchwil (gan gynnwys y rheini sy'n ymuno'n gynnar) yn ystod yr wythnos hon. Disgwylir i bob Cynorthwyydd Ymchwil newydd ddod i'r swyddfa yn ystod y cyfnod hwn. |

*Mae'r dyddiadau hyn yn rhai dros dro ac mae'n bosibl y byddant yn newid.

# Pennod 5: Prif Delerau'r Penodiad

Dyma'r prif delerau ond ni ddylid eu hystyried yn gontract cyflogaeth. Byddwn yn rhoi gwybod am y telerau ac amodau ffurfiol ar ôl cwblhau'r camau gwirio cyn cyflogi.

### Gwyliau blynyddol

Bydd y lwfans gwyliau blynyddol yn 25 diwrnod y flwyddyn gyda thâl, ynghyd ag amser o'r gwaith gyda thâl ar gyfer gwyliau cyhoeddus ac 1 diwrnod braint â thâl.

### Oriau gwaith

Mae pob swydd yn un llawnamser, sef 37 awr yr wythnos, heb gynnwys amser cinio. Mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithredu cynllun oriau hyblyg sy'n galluogi staff i addasu eu horiau gwaith yn amodol ar anghenion busnes a phresenoldeb o fewn oriau craidd. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried gweithio rhan-amser.

### Hysbysiad

Bydd manylion am sut i derfynu cyflogaeth yn cael eu nodi yn eich llythyr penodi. Dim ond i'r rheini sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd y bydd hyn yn berthnasol.

### Gweithgareddau allanol

Mae gweithwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys Comisiwn y Gyfraith, yn ddarostyngedig i nifer o reolau sy'n effeithio ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau allanol penodedig. Er enghraifft, os ydych yn dymuno cyhoeddi deunydd (ar unrhyw ffurf), addysgu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol yn ystod eich amser yng Nghomisiwn y Gyfraith, bydd angen i chi ystyried a yw'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â dyletswyddau gweision sifil. Mewn rhai achosion, dim ond gydag awdurdod ymlaen llaw y gellir ymgymryd â gweithgareddau. Rydym yn hapus i roi arweiniad Comisiwn y Gyfraith i chi ar weithgareddau allanol cyn i chi wneud cais.

### Cyflog

Bydd y cyflog yn cael ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau drwy drosglwyddiad credyd i'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu. Bydd y rhai sy'n ymuno o'r newydd yn dechrau ar y cyflog cychwynnol isaf, sef £40,014. Bydd manylion yn cael eu cynnwys yn eich llythyr apwyntiad.

### Buddion

Bydd y gyflogaeth yn bensiynadwy o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, yn amodol ar wiriadau iechyd penodol. Bydd gwybodaeth am y cynllun a'r opsiynau sydd ar gael i chi yn cael ei hanfon atoch yn fuan ar ôl i chi gyrraedd. Bydd gennych dri mis o'ch dyddiad dechrau i wneud dewis.

## Cyfnod cyflogaeth

Bydd contractau Cynorthwyydd Ymchwil yn cael eu cynnig o fis Medi 2026 hyd at fis Awst 2028, gyda'r opsiwn o gael contract blwyddyn os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny.

## Cyfnod Prawf

Mae'r cyfnod prawf yn bedwar mis ar gyfer contractau blwyddyn, ac yn chwe mis ar gyfer contractau dwy flynedd. Bydd y penodiad yn cael ei gadarnhau ar yr amod bod gofynion arferol y swydd, presenoldeb ac ymddygiad wedi'u bodloni'n foddhaol yn ystod y cyfnod prawf.

# Pennod 6: I gael rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi gwestiwn technegol am y broses ymgeisio ar-lein neu os ydych chi'n cael trafferth cyflwyno eich cais, ffoniwch Dîm Recriwtio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 0345 241 5359 (Opsiwn 1) (Llun-Gwe 8am-6pm) neu anfonwch e-bost at **MOJ-Recruitment-Vetting-Enquiries@gov.sscl.com** gan nodi cyfeirnod y swydd wag (bydd y cyfeirnodau'n cael eu cynnwys pan fydd y swyddi gwag yn fyw ym mis Ionawr 2025):

13037 – Y Tîm Cyfraith Masnach a'r Gyfraith Gyffredin

13040 – Y Tîm Cyfraith Trosedd

13003 – Y Tîm Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth

13041 – Y Tîm Cyfraith Gyhoeddus

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth mewn perthynas ag unrhyw fater arall, fel eich cymhwysedd academaidd ar gyfer y swydd, anfonwch e-bost i **recruitment@lawcommission.gov.uk**. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl